**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **25 Mawrth 2015**

**Aelod Arweiniol:** **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau**

**Awdur yr Adroddiad:** **Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Teitl:** **Diweddariad ar y Taliadau Ariannol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r cynllun gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn adolygu a rhoi sylwadau ar yr adroddiad cynnydd.
- Bod y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n fodlon â'r cynnydd hyd yma.
- Bod y Pwyllgor yn penderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau dilynol, gan bwy ac ar ba ddyddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Roedd adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014 yn cynnwys cynllun gweithredu gyda phedwar Mater Cymedrol ac 14 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Pan gyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 15 Ebrill 2014, mynegodd y Pwyllgor rai pryderon o ran bod y broses dalu bresennol yn anghynaladwy ac felly bu i'r Pwyllgor ofyn i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad dilynol ac adrodd yn ôl iddynt.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad dilynol ar 5 Tachwedd 2014, a oedd yn dangos mai dim ond pum cam gweithredu oedd wedi'u cwblhau, gyda thri arall ar y gweill. Nid oedd chwech o'r camau gweithredu wedi cael sylw, gan gynnwys y prif fater a godwyd (Mater 1), a oedd yn gofyn am adolygiad llawn o'r broses ar gyfer gwneud taliadau i bobl sy'n gadael gofal.  Felly, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad dilynol pellach.

Mae Atodiad 1 yn darparu'r diweddariad diweddaraf, sydd bellach yn dangos bod wyth o gamau gweithredu wedi'u cwblhau, gyda'r chwech sy'n weddill ar y gweill. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu sy'n weddill yn dibynnu ar gyngor y gofynnwyd amdano gan y Gwasanaeth Caffael Cydweithredol (yr Uned Caffael Strategol yn flaenorol) ond, hyd nes y daw hwn i law, ni ellir rhoi sylw i'r prif faterion sy'n codi o'r adroddiad Archwilio Mewnol, ac maent bron i flwyddyn yn hwyr ar ôl y cynllun gweithredu gwreiddiol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol – adroddiad er gwybodaeth yn unig

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol – adroddiad er gwybodaeth yn unig

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os nad yw cynllun gweithredu Archwilio Mewnol yn cael ei weithredu, bydd gwendidau yn parhau yn y gweithdrefnau ar gyfer gwneud taliadau i bobl sy'n gadael gofal fel yr amlinellir yn yr adroddiad Archwilio Mewnol gwreiddiol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig